# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)05-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 10 Chwefror 2009

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Rosemary Butler, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Llywydd. Cadeiriodd y Dirprwy Lywydd y cyfarfod.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)04-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 3 Chwefror 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)05-09(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 10 a 11 Chwefror 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)05-09(p2)**

3.3 Gofynnodd William Graham a ellid trefnu dadl yn ystod amser y Llywodraeth i gyd-fynd â Diwrnod y Gymanwlad ar 10 Mawrth. Dywedodd Arweinydd y Tŷ na fyddai hynny'n bosibl.

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)05-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitem ganlynol o fusnes y Cynulliad:

Cynnig i ymestyn cytundeb y Comisiynydd Safonau (5 munud) ar 25 Chwefror.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad .

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Trefn busnes**

**Papur ar ddatganiadau barn - BC(3)05-09(p4)**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr, bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod sut y gallai categori newydd o ddadl yn seiliedig ar ddatganiadau barn, weithredu. Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur arall yn amlinellu gweithdrefn ar gyfer ystyried datganiadau barn yn ystod Cyfarfodydd Llawn. Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd at y mater yn ei gyfarfod nesaf ar ôl ymgynghori â'u grwpiau.

**5. Pwyllgorau**

Cais gan y Pwyllgor Deisebau i gynnal cyfarfod pwyllgor yn Senedd yr Alban - BC(3)05-09(p5)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais i'r Pwyllgor Deisebau gynnal cyfarfod pwyllgor ffurfiol yn Senedd yr Alban ddydd Llun 2 Mawrth, fel rhan o'i ymchwiliad i ddeiseb gan Gymdeithas Ganwa Cymru.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**